



Ein cyf/Our ref MA- P/ARD/1039/17

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

21 Mawrth 2017

Annwyl Bethan,

Amgaeaf ymateb llawn Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 'Y Darlun Mawr'.

Mae'r ymateb hefyd yn cynnwys ein sylwadau ar Argymhelliad 5 yn yr adroddiad sydd dan sylw yn eich llythyr dyddiedig 16 Chwefror:

'Rydym yn argymhell na ddylai Llywodraeth Cymru roi ei chaniatâd i benodi aelod Bwrdd y BBC ar gyfer Cymru hyd nes y caiff y Pwyllgor gyfle i gynnal gwrandawriad cyn penodi gydag enwebai Llywodraeth y DU ar gyfer y swydd.'

Byddaf yn hapus iawn i ymddangos o flaen y Pwyllgor i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn mwy o fanylder.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath.

Alun Davies AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Y Darlun Mawr: Safbwyntiau Cychwynol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru

Mawrth 2017

Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r argymhellion yn yr adroddiad.

Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:

Argymhelliad 1

Rydym yn argymhell y dylai Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC ddarparu £30 miliwn ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer dramâu Saesneg a darlledu am Gymru.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Ar 21 Chwefror cyhoeddodd y BBC y bydd BBC Cymru Wales yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer rhaglenni, ac y bydd yn lansio rhai gwasanaethau newydd. Bydd rhywfaint o'r cyllid ychwanegol ar gael yn 17/18, a bydd hynny'n codi i'r cyllid ychwanegol llawn o £8.5m erbyn 19/20. Bydd hwn ar gael i gomisiynwyr gyflwyno rhaglenni Saesneg newydd ar gyfer Cymru, sef cynnydd o 50% o leiaf yn fwy na'r cyllid sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd.

Croesawodd Llywodraeth Cymru y cyhoeddiad hwn a fydd yn galluogi BBC Cymru Wales i gomisiynu mwy o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau pobl yng Nghymru.

Y diwrnod canlynol cyhoeddwyd y byddai cyllid a gwasanaethau ychwanegol ar gael i'r Alban, a dehonglwyd hynny gan rai fel dyraniad mwy ffafriol na'r hyn a roddwyd i Gymru. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa a'r blaenoriaethau yn y ddwy wlad yn wahanol, felly nid peth syml nac arbennig o werthfawr yw cymharu'n uniongyrchol. Ni fydd creu sianel newydd ar wahân yn diwallu ein hanghenion. Ni fydd sianel ar wahân gyda chynulleidfaoedd bach yn pontio'r blwch presennol o ran y wybodaeth a ddarperir. Mae angen gwasanaeth cynhwysfawr arnom ar bob un o sianeli ac allfeydd presennol y BBC sy'n diwallu anghenion Cymru o ran newyddion, chwaraeon a diwylliant.

Fel yr adlewyrchir yn adroddiad y Pwyllgor, roedd Llywodraeth Cymru wedi galw ar y BBC i ddarparu cyllid ychwanegol o £30m ar gyfer rhaglenni Saesneg i Gymru. Yn amlwg gallai'r pecyn cyllid a gyhoeddwyd ym mis Chwefror fod wedi bod yn fwy, ond rydym yn cydnabod mai arian ychwanegol yw'r arian newydd a addawyd i Gymru ac mae hynny'n hollbwysig.

Ym mis Mai 2016 gwnaeth yr Arglwydd Hall nifer o addewidion cyhoeddus pwysig i Gymru, gan gynnwys cyllid ychwanegol i wella gwasanaethau a darparu mwy o gynnwys penodol i Gymru ac rydym yn falch ein bod bellach yn dechrau gweld yr addewidion hyn yn cael eu gwireddu. Ni chânt eu gwireddu'n llawn oni fydd y BBC yn gweithio'n galetach i ddeall anghenion pobl Cymru, yn cydnabod lle mae'r gwasanaeth yn llai na'r disgwyl ar hyn o bryd ac yn cynllunio ei gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny'n llawn, nawr ac yn y dyfodol. Yna, rhaid iddi neilltuo'r cyllid angenrheidiol i wneud hynny. Mae'r Arglwydd Hall wedi'n sicrhau mai dyma'r dull y mae'r BBC yn ei fabwsiadu bellach.

Mae dwyn y BBC i gyfrif am ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen arnom, yn y modd mwyaf costeffeithiol posibl, yn bwysicach na cheisio sicrhau swm penodol. Byddwn yn parhau i gyd-drafod yn fanwl â'r BBC i sicrhau ei bod yn defnyddio ei holl adnoddau a'i chyllideb gyfan yn effeithiol – i gyflawni'r dyletswyddau cryfach mewn perthynas â Chymru a gyflwynir yn ei Siarter newydd, yn ogystal â'r ymrwymadau y mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC eisoes wedi'u gwneud i Gymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mater i'r BBC yw hyn.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell na ddylid bod unrhyw ostyngiad yn y gyfran bresennol o wariant rhwydwaith yng Nghymru, ac y dylai wneud mwy i adlewyrchu a phortreadu cymdeithas a safbwyntiau Cymreig.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir mewn trafodaethau gyda Gweithrediaeth y BBC yng Nghaerdydd ac yn Llundain nad yw datblygu Caerdydd yn ganolfan gynyddol bwysig ar gyfer cynyrchiadau rhwydwaith yn cyfiawnhau lleihau buddsoddiad y BBC mewn gwasanaethau lleol. Bydd y cyllid ychwanegol y bydd BBC Cymru Wales yn ei gael ar gyfer rhaglenni Saesneg ar gyfer Cymru yn caniatáu, gobeithio, i gynulleidfaoedd Cymru fod â gorsaf deledu genedlaethol gredadwy a allai ddarparu cynnwys o safon yn Saesneg, gan gynnwys drama, comedi a chyfraniadau rhwydwaith.

Rydym yn croesawu'r bwriad i gryfhau cynyrchiadau rhwydwaith yng Nghymru ac yng ngwledydd eraill y DU. Daw hyn â manteision creadigol yn ogystal â rhai economaidd i'r BBC yn gyffredinol. Roeddem yn croesawu ymrwymiad y BBC i gyrraedd y targed o 17% ar gyfer rhaglenni teledu ar gyfer y gwledydd cyn 2016. Ein disgwyliad ni yw y dylai 5% o leiaf o gynyrchiadau rhwydwaith darddu o Gymru, a hynny o gymysgedd o gynyrchiadau mewnol ac annibynnol – a dylai hyn fod yn sylfaen yn hytrach na therfyn uchaf creadigrwydd yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mater i'r BBC yw hyn.

Argymhelliad 3. Rydym yn cefnogi'r syniad o drefniant eithrio i Radio 1 a Radio 2 ar gyfer newyddion am Gymru ac yn argymhell bod y BBC yn darparu'r cyllid angenrheidiol i sicrhau hyn.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn cydnabod y rôl allweddol y mae'r BBC yn ei chwarae fel darparwr darllediadau newyddion, am Gymru ac i bobl Cymru.

Gallai trefniant eithrio i Radio 1 a Radio 2 ar gyfer newyddion am Gymru fod yn ffordd o gynyddu'r nifer o bobl yng Nghymru sy'n cael newyddion am Gymru.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ymateb manwl ym mis Chwefror 2016 i adolygiad y BBC o'i gwasanaethau newyddion yn y gwledydd. Rydym yn aros am gasgliadau'r BBC yn dilyn yr adolygiad o'r gwasanaethau hynny.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mater i'r BBC yw hyn.

Argymhelliad 4. O ystyried ein pryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl y dull y mae'r BBC wedi'i fabwysiadu, rydym yn argymhell y dylai'r BBC adolygu'n feirniadol ei chynlluniau i ymgorffori newyddiadurwyr y BBC mewn sefydliadau cyfryngau lleol. Rydym yn argymhell hefyd fod y BBC yn ystyried buddsoddi mewn gwasanaeth penodol ar gyfer darparu newyddion lleol y gellir ei ddefnyddio gan sefydliadau'r cyfryngau lleol ar faterion lle mae newyddiaduraeth leol wedi dirywio, fel newyddion am gynghorau a llysoedd lleol.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'n iawn bod y BBC wedi cydnabod yr effaith y mae newyddion ar-lein wedi ei chael ar y diwydiant papurau newydd. Yn ein hymateb i adolygiad y BBC o'i gwasanaethau newyddion yn y gwledydd, nodwyd yr heriau sy'n ein hwynebu yng Nghymru o ran lluosogrwydd newyddion. Gyda hynny mewn golwg, byddem yn rhannu pryderon y Pwyllgor pe byddai'r cynnig i ymgorffori newyddiadurwyr y BBC yn mynd yn ei flaen ac yn achosi i ddarparwyr eraill y cyfryngau dorri'n ôl ar y ddarpariaeth bresennol. Fel rhan o unrhyw adolygiad beirniadol o'r rhaglen, byddem yn dymuno gweld cyfres o amodau wedi'u diffinio'n glir, er mwyn sicrhau bod yr adnodd a ddarperir bob amser yn ychwanegol at yr hyn sy'n cael ei ddarparu eisoes.

Mae hefyd yn bwysig bod cynnig y BBC yn berthnasol ac yn ddeniadol i ddarparwyr newyddion eraill. Yn benodol, mae'n rhaid i sefydliadau cyfryngau lleol sy'n defnyddio adnoddau'r BBC fod yn hyderus y byddant yn cadw rheolaeth newyddiadurol a golygyddol dros yr hyn a gynhyrchir yn eu henw. Ni fydd diddordeb ganddynt mewn dim ond ailgylchu adroddiadau'r BBC ei hun ac, os felly, byddem yn cwestiynu gwerth democrataidd gwasanaeth o'r fath.

Ni fyddai'n cynyddu'r dewis i ddinasyddion ac rydym yn amau y byddai llawer o alw amdano gan y diwydiant yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell na ddylai Llywodraeth Cymru roi ei chaniatâd i benodi aelod newydd Bwrdd y BBC ar gyfer Cymru hyd nes y caiff y Pwyllgor gyfle i gynnal gwrandawriad cyn penodi gydag enwebai Llywodraeth y DU ar gyfer y swydd.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mewn egwyddor, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gellid gwella'r broses yn y dyfodol o benodi holl gyfarwyddwyr anweithredol y BBC ar gyfer y gwledydd drwy roi i'r pwyllgor priodol yn neddfwrfa pob gwlad gyfle i gynnal gwrandawriad cyn penodi gyda'r ymgeisydd priodol a ffeirir.

Byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon codi hyn gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Efallai y byddwch hefyd am ysgrifennu at Gadeiryddion y pwyllgorau cyfatebol yn Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig eraill, i sicrhau eu cydweithrediad wrth gyflwyno'r achos dros y newid hwn a fyddai'n rhaid ei gyflwyno fel proses gyson ar draws y DU.

A bod yn glir, rhaid i'r hawl i gytuno ar benodiadau aros gyda Gweinidogion, felly nid gwrandawriad cadarnhau fyddai unrhyw ymddangosiad gerbron pwyllgor. Fodd bynnag, byddai'n caniatáu i'r pwyllgor roi ei farn am yr ymgeisydd a ffeirir i'r Llywodraeth yn y wlad honno, er mwyn llywio'i ffordd o feddwl.

Ar ôl ei benodi/phenodi, disgwyliwn y bydd aelod newydd Bwrdd y BBC ar gyfer Cymru yn gwbl ymwybodol o'i rôl wrth sicrhau bod y BBC yn briodol atebol i'r Pwyllgor, fel sy'n ofynnol gan y Siarter.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell na ddylai fod unrhyw doriadau pellach i gyllid S4C hyd nes bod yr adolygiad arfaethedig wedi'i gwblhau a bod pawb sydd â rhan yn nyfodol S4C wedi cael cyfle i fyfyrion ar ei gasgliadau.

Ymateb: Derbyn

Mae'r cyllid mae S4C yn ei dderbyn drwy ffi'r drwydded eisoes wedi ei gytuno fel rhan o adolygu Siarter y BBC a mater i Lywodraeth y DU yw cadarnhau unrhyw gyllid ychwanegol i S4C o'r Drysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Rydym yn nodi fod Cadeirydd S4C wedi croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar 20 Mawrth a oedd yn amlinellu pecyn cyfalaf ychwanegol a benthyciad ariannol i S4C.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan lawn yn y broses o adolygu Siarter y BBC ac rydym wedi pwysleisio i Lywodraeth y DU yn gyson ei bod yn hanfodol bod gan S4C gyllid digonol, yn ogystal ag annibyniaeth olygyddol a rheolaethol, iddi barhau i allu gwasanaethu'r gynulleidfa Gymraeg a chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r Gymraeg a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Roedd Llywodraeth Cymru yn falch bod y Siarter newydd yn rhoi ymrwymiad o'r newydd i wasanaethau Cymraeg. Mae'r Cytundeb Fframwaith sy'n cyd-fynd â'r Siarter yn cadarnhau partneriaeth y BBC gydag S4C, partneriaeth sy'n seiliedig ar gydweithio i gadw a diogelu annibyniaeth ei gilydd. Mae hefyd yn rhoi setliad ariannol cadarn mewn perthynas â'r elfen o gyllid S4C a ddaw o ffi'r drwydded, sy'n hanfodol bwysig i S4C allu parhau i ddatblygu ei gwasanaethau.

Rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i gynnal adolygiad cynhwysfawr o S4C, adolygiad yr ydym wedi bod yn pwysu amdano yn barhaus ac a addawyd yn wreiddiol yn 2010. Fodd bynnag, dylai hyn fod wedi digwydd ochr yn ochr â'r Adolygiad o Siarter y BBC yn hytrach nag ar ei ôl. Dylai hefyd fod yn rhan o adolygiad ehangach, mwy sylfaenol o anghenion Cymru mewn perthynas â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

Mae Llywodraeth y DU yn ymwybodol ein bod yn disgwyl chwarae rhan lawn yn yr adolygiad o S4C, ac rydym nawr yn aros am gadarnhad gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o'r cylch gorchwyl llawn ac o benodiad yr adolygydd annibynnol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno y dylai Awdurdod S4C osod adroddiadau blynyddol a datganiadau archwiliedig o gyfrifon gerbron y Cynulliad.

Ymateb: Derbyn

Mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac S4C i gytuno arno yw hwn.

Rydym wedi cyfeirio'n aml at bwysigrwydd gwella atebolrwydd sefydliadau darlledu yn y DU i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i wylwyr a gwrandawyr yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfeiriadau ym Mhapur Gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi at gynyddu atebolrwydd darlledwyr gan gynnwys S4C.

Yn dilyn yr Adolygiad o Siarter y BBC, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau i graffu ar y BBC, i alw arni i ymddangos gerbron y Cynulliad ac i'w dwyn i gyfrif yn uniongyrchol – hawl a oedd wedi'i neilltuo i Senedd y DU cyn hynny.

Byddai gweithredu'r argymhelliad hwn yn sicrhau y caiff S4C ei thrin yn yr un modd â'r BBC.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y DU ac Ofcom yn ystyried diwygio Cod Ymarfer Ofcom ar gyfer darparwyr Canllaw Rhaglenni Electronig i sicrhau bod S4C yn amlwg yng Nghymru yn y Canllawiau Rhaglenni Electronig a chymwysiadau teledu deallus, fel gwasanaeth i-player y BBC.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Er ein bod yn cytuno â'r egwyddor o sicrhau bod S4C yn cael mwy o amlygrwydd yng Nghymru ar Ganllawiau Rhaglenni Electronig a chymwysiadau teledu deallus, nid ydym wedi derbyn sylwadau gan S4C na gwylwyr mewn perthynas â'r mater hwn. Byddai gennym ddi-ddordeb mewn cael rhagor o fanylion am unrhyw broblemau a gafwyd.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell bod Stiwdios ITV yn dilyn y BBC ac yn mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o ddatblygu rhaglenni i'w darlledu ar rwydwaith ITV, gan gynnwys pennu nodau penodol ar gyfer datblygu cynnyrch rhwydwaith o Gymru, sy'n adlewyrchu bywyd yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd ITV Cymru Wales wrth sicrhau lluosogrwydd y ddarpariaeth o newyddion Saesneg ar gyfer pobl Cymru. Rydym wedi datgan yn gyson bod gan ITV Cymru Wales rôl hanfodol i'w chwarae o hyd fel dewis amgen i'r BBC ar gyfer rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill. Fodd bynnag, rydym yn dal i bryderu nad yw ITV yn darparu darllediadau rhwydwaith digonol o'r gwledydd datganoledig ac rydym wedi pwysu ar Ofcom i adlewyrchu hyn yn ei ddadansoddiad diweddaraf o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

Yn hynny o boeth, er i Lywodraeth Cymru groesawu penderfyniad Ofcom i greu trwydded Sianel 3 ar wahân i Gymru, gwnaethom yn glir nad yw diogelu'r ddarpariaeth bresennol o ddarllediadau yn ddim mwy nag amod cwbl sylfaenol ar gyfer adnewyddu trwydded Sianel 3. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gredu nad yw lefel bresennol y ddarpariaeth yn briodol, neu hyd yn oed yn ddigonol; mae'n ddarpariaeth o'r safon isaf sydd prin yn llwyddo i gyflawni yn erbyn gofynion sylfaenol iawn ar gyfer Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

Fodd bynnag, er bod Ofcom wedi adnewyddu trwydded ranbarthol ITV ar sail sy'n benodol i Gymru am ddeng mlynedd arall, rydym yn parhau i gredu y dylid cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer newyddion a deunydd arall ar ITV Cymru Wales, yn enwedig o ystyried sefyllfa ariannol iach ITV plc ar hyn o bryd. Byddai hyn hefyd yn rhoi rhagor o gyfleoedd i ITV Cymru Wales ddatblygu rhaglenni rhwydwaith.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymhell y dylai ITV, Channel 4 a Channel 5 ddarparu diweddariad blynyddol i'r Cynulliad, drwy'r Pwyllgor, yn nodi gwybodaeth am y portread o Gymru ar eu rhwydweithiau.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei gytuno ag ITV, Channel 4 a Channel 5 yw hwn.

Fel y nodwyd eisoes, rydym wedi cyfeirio'n aml at bwysigrwydd gwella atebolrwydd sefydliadau darlledu yn y DU i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i wylwyr a gwrandawyr yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 11. Rydym yn galw ar Ofcom i asesu pa bwerau sydd ganddo i gynyddu cwotâu Channel 4 y tu allan i Loegr cyn adnewyddu'r drwydded nesaf yn 2024 a thrwy wneud hynny, ailystyried yr opsiynau mwy heriol a awgrymwyd ar gyfer cynyddu'r cwota yn 2013-14.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf y dylai fod yn ofynnol i Channel 4, os yw'n derbyn arian cyhoeddus, gynhyrchu o leiaf gyfran sy'n gymesur â'r boblogaeth o gomisiynau rhwydwaith yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae hyn yn cydymffurfio'n llwyr â rôl Channel 4 wrth ddatblygu talent newydd ar draws y DU. Roeddem yn siomedig nad oedd Ofcom yn cytuno â'n barn ni, fel yr adlewyrchwyd yn ein hymateb i'w ymgynghoriad, y dylid gweithredu cwota Channel 4 ar gyfer cynyrchiadau y tu allan i Lundain erbyn 2016 yn hytrach na 2020. Yr ydym yn dal o'r farn y dylai Channel 4 allu cyflawni'r cwota newydd ymhell cyn 2020.

Prin iawn fu'r cynnwys a gomisiynodd Channel 4 o Gymru erioed; mae gwariant Channel 4 yng Nghymru yn dal i fod yn llai nag 1% o gyfanswm gwariant Channel 4 ar gynnwys ac nid oes gan y darlledwr, sydd wedi'i leoli yn yr Alban, ddim staff comisiynu yng Nghymru.

Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn penodi aelod o Fwrdd Ofcom ar gyfer Cymru am y tro cyntaf. Byddem yn disgwyl i'r unigolyn hwnnw fod yn

ymwybodol o'r materion a nodir uchod lle y gallai Ofcom fod yn chwarae rhan gryfach – yn enwedig y materion hynny lle y cytunwn y gallai Ofcom bennu nodau rheoleiddio mwy heriol ar gyfer y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus – ac i bwysu am i'r materion hyn gael eu cymryd o ddifrif ar frig y sefydliad.

Yng nghyd-destun cyfrifoldebau rheoleiddio ychwanegol Ofcom yn dilyn Adolygu Siarter y BBC, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos gydag Ofcom drwy gydol y broses o ddatblygu a chytuno Trwydded Gwasanaeth y BBC yng Nghymru ac ar ôl hynny sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio gyda gofynion y Drwydded Gwasanaeth.

Goblygiadau Ariannol – Dim.